## P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru

**Geiriad y ddeiseb:**
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddatblygu polisi Cymraeg Clir/Plain English ar gyfer ei holl gyfathrebiadau, a hefyd rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi o'r fath fel bod yr iaith a ddefnyddir yn glir ac yn ddealladwy bob amser.

Mae siarad dwbl, iaith gyfreithiol ddiangen a defnyddio acronymau a jargon annealladwy, ar ffurf ysgrifenedig ac ar lafar yn Siambr y Senedd, yn atal gwleidyddiaeth yng Nghymru rhag bod mor gynhwysol a hygyrch ag y dylai fod. Byddai polisi iaith glir yn helpu i annog mwy o ddiddordeb a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth Cymru ymysg pawb. Dylai'r polisi hefyd fod yn gymwys i ddogfennau cyfreithiol/Biliau/Deddfau cyhyd â'u bod yn parhau i fod yn gyfreithiol gadarn. Fel enghraifft dda o gyfathrebiad dealladwy a chlir, gellid defnyddio templed Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr fel templed Cymraeg cyfatebol i dempled Plain English, fel bod y defnydd o'r Gymraeg, p'un a gaiff ei defnyddio mewn adroddiadau gwreiddiol neu ddeunydd wedi'i gyfieithu, yn berthnasol, modern a dealladwy, ac nid yn gyfieithiad llythrennol, annealladwy a slafaidd o'r geiriadur o'r fersiwn Saesneg. Mae dyletswydd ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob penderfyniad llywodraethu sy'n effeithio ar Gymru yn ddealladwy i bawb, pa bynnag iaith a ddefnyddir.
.
**Prif ddeisebydd**: Cymru Sofren

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 14 Mai 2013

**Nifer y llofnodion** : 11